# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Chwarter 1 2023-24
## (Ebrill - Mehefin 2023)
## Adroddiad Perfformiad

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cynnwys yr Adroddiad




1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio ....3
2. Perfformiad y Portffolio ....4
3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol ....5
4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel ....7
5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo ....9
6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth ....12
7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ....14
8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau ....16
9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022 ....17
10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Mawrth 2023) ....18
11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022 ....19
12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf ....20

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf ....21

# 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio

Yn ystod y chwarter diwethaf, derbyniom gyfanswm hynod o 26 cynnig prosiect fel rhan o alwad y Cynllun Twf am brosiectau newydd. Dros y misoedd diwethaf, mae'r cynigion wedi bod yn asesu'r ceisiadau hyn yn drylwyr i adnabod y rhai sy'n dangos sut allant gefnogi ein heconomi i ffynnu, creu swyddi newydd a chyflwyno buddsoddiad i Ogledd Cymru.

Mae rhestr fer o chwe prif gystadleuydd wedi cael ei llunio a bydd ein bwrdd yn dewis yr enillwyr yn y pen draw. Bydd pob prosiect a ddewisir yn cael cyfle i fod yn rhan o'r Cynllun Twf, gan dderbyn cyfran o'r £30 miliwn o arian cyfalaf sydd ar gael.

Ym mis Mehefin, fe lansiom ein hymdrech i chwilio am bartner yn y diwydiant i weithio gyda ni i gyflawni'r Hwb Hydrogen Gwyrdd yng Ngogledd Cymru, gyda hyd at £11.2 miliwn o gyfalaf ar gael i alluogi galw'r diwydiant am hydrogen. Cynhaliwyd lansiad yr Her Ariannwr Hydrogen hwn ar ôl digwyddiad cyn-lansio, ym mis Ebrill, i hysbysu'r diwydiant a'r llywodraeth ynghylch y gystadleuaeth arfaethedig a chynllun ymgynghori pellach yn ystod mis Mai. Dyma gam gwych ymlaen ar gyfer y Rhaglen Ynni Carbon Isel ac edrychwn ymlaen i ddatgan manylion pellach yn y man. Mae'r cyfnod ymgeisio yn cau ar 8 Medi.

Cynhaliwyd Adolygiad Gateway 2 Achos Busnes Amlinellol prosiect Porth Caergybi ym mis Mehefin, a derbyniodd raddfa hyder cyflawni ambr. Mae'r raddfa hon yn dangos er ei bod yn ymddangos bod modd cyflawni'r prosiect yn hyfyw, mae materion arwyddocaol sydd angen sylw ar unwaith.

Roedd yr adroddiad adolygu yn tynnu sylw at ddeg argymhelliad hanfodol i sicrhau cynnydd llwyddiannus y prosiect. Yn eu mysg, gwnaed galwad frys i weithredu ynghylch y Gorchymyn Diwygio Harbwr, sydd ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru. Mae ymdrin â'r mater hwn yn brydlon yn hanfodol er mwyn cynnal cynnydd a chyflawnder y prosiect.

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Ymchwil Uwch Gynhyrchu (AMRC) a bydd yn edrych i sefydlu lleoliad yn Hwb Economi Gwledig Glynllifon i gefnogi busnesau SME gydag effeithiolrwydd a chynhyrchedd wedi'i awtomeiddio.

Yn olaf, rydym wedi lansio'r broses o gaffael rheolwr cronfa ar gyfer y prosiect Cronfa Ynni Lleol Blaengar; gweler y manylion ar Gwerthwchi Gymru



**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**



# 2. Perfformiad y Portffolio



| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | | Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Bydd gwaith i ddiweddaru Achos Busnes Portffolio 2023 yn cychwyn ym mis Gorffennaf ar ôl i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wneud penderfyniad ynghylch y prosiectau amgen. |
| Piblinell Cyflawni | | Mae'r prosiectau yn cael eu hasesu yn erbyn Achos Busnes Portffolio 2022 ar hyn o bryd. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae sawl achos o oedi ar draws y Portffolio. Mae'r gwaith i liniaru'r oedi yma yn parhau ac mae Cronfa Cyflawni Portffolio wedi'i sefydlu ar gyfer 2023-24 i helpu i aeddfedu prosiectau er mwyn eu cyflawni eleni. Cynhyrchir proffil diwygiedig fel rhan o ddiweddariad yr Achos Busnes Portffolio ar gyfer 2023. |
| Llywodraethu | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | | Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau ym mis Medi 2022, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr' ar gyfer y portffolio. Cynhelir yr adolygiad nesaf yn ystod yr hydref 2023. |
| Adnoddau a Chapasiti | | Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i lleihau gan 2.5 FTE dros y chwarter a fu. Mae'r contractau tymor penodol yn y tîm wedi'u hymestyn i fis Mawrth 2025, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr. |
| Cyllid | | Mae cyfanswm o £2.28m o arian y Cynllun Twf wedi cael ei wario hyd yma, gydag £1.8m o hwnnw ar y Ganolfan Prosesu Signal Digidol. Yn ystod Chwarter 1 mae £73k o'r Grant Cynllun Twf wedi cael ei wario. |
| Buddsoddiad | | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | | Mae risgiau lefel portffolio o ran caniatâd ac mae'r oedi yn parhau i fod yn uchel yn sgil materion lefel prosiect. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn risg uchel oherwydd chwyddiant parhaus, materion yn y gadwyn gyflenwi a chynnydd mewn costau adeiladu.<br>Mae'r risg ynghylch capasiti wedi lleihau'n raddol yn sgil ymestyn contractau tymor sefydlog sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf ond mae'n parhau i fod yn uchel |
| Monitro a Gwerthuso Buddion | | Mae'r gwireddu buddion, monitro a'r fframwaith gwerthuso wedi'i gwblhau a'i uwchlwytho i system adrodd newydd gyda phrofi terfynol wedi'i gynnal cyn lansio'n llawn. Mae'r diffiniadau dangosydd wedi'u cwblhau'n derfynol, yn amodol ar adolygiad gan y llywodraeth. Mae cam cyntaf yr hyfforddiant defnyddwyr ar gyfer y system adrodd wedi'i gwblhau. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | Fe lansiom yr Her Ariannwr Hydrogen gyda hyd at £11.2 miliwn o gyfalaf i gyflawni hwb hydrogen yn y rhanbarth, oedd yn cynnwys digwyddiad ym mis Ebrill gydag areithiau prif siaradwyr gwadd gan y Gweinidog Vaughan Gething a James Davies AS. Hefyd yn ystod y chwarter hwn fe lansiwyd ein newyddlen newydd, gyda chyrhaeddiad o 630k, bron i 1000 o ryngweithiau ar y cyfryngau cymdeithasol ac achlysuron lle y cawsom ein crybwyll yn ddigidol, a thros 10k o ymweliadau i'r wefan. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r rhan fwyaf o ail gam y caffael ar gyfer y prosiect DSP bellach wedi'i gyflawni. Yn ystod y chwarter hwn mae rolau newydd wedi'u hysbysebu, gan gynnwys rôl i berson graddedig. Mae strategaeth masnacheiddio i gynyddu cydweithrediad y diwydiant hefyd wedi'i ddatblygu, gyda phrosiect band llydan mawr dan arweiniad Bangor i fod i gychwyn yn Ch2.<br>• Mae'r paratoadau caffael ar gyfer y prosiect Ychydig % Olaf wedi symud ymlaen gyda chefnogaeth gan Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg llywodraeth y DG. Mae angen deall y risg yn parhau o ran fforddiadwyedd a'r effeithiau posib yn dilyn y datganiad diweddar am oedi i fuddsoddiad band llydan gigabit llywodraeth y DG yn y rhanbarth.<br>• Mae achosion busnes wedi'u cyflwyno i'r bwrdd prosiect a'r PMO ar gyfer y prosiectau Safleoedd a Choridorau a Champysau Cysylltiedig Allweddol.<br>• Cyflwynwyd bid i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin rhanbarthol, gan gynnwys cyllid ar gyfer ffrydiau gwaith sy'n cefnogi amcanion gwario'r Rhaglen. |



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Rebeccah Lowry
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | Cyflwyno | • Holl eitemau blwyddyn 2 wedi'u cyflawni heblaw am un eitem.<br>• Mae dwy swydd newydd wedi'u hysbysebu ac mae rôl peirianneg i raddedigion (18 mis) wedi'i chreu. | • Yr eitem derfynol o'r caffael am yr ail flwyddyn i'w chyflawni<br>• Mae prosiect band llydan dan arweiniad y Ganolfan DSP i fod i gychwyn | | • Mae caffael ail gam yr offer wedi bod yn llwyddiannus<br>• Mae'r strategaeth masnacheiddio wedi cael ei ddatblygu ymhellach i gynyddu cydweithio'r diwydiant<br>• Prosiect ar y trywydd iawn i gyflwyno yn erbyn y proffil cyflawni |
| **Cysylltu'r Ychydig % Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Dogfennau caffael a chontractau wedi'u cwblhau<br>• Sgôp terfynol yr eiddo sydd wedi'u diffinio â chefnogaeth UK DSIT | • Trefniadau rheoli cymorthdaliadau wedi'u cwblhau'n derfynol<br>• Caffael yn cychwyn | | • Dogfennau caffael wedi'u cwblhau.<br>• Mae sgôp y prosiect wedi cael ei fireinio'n sylweddol i leihau'r risg fforddiadwyedd sy'n parhau hyd nes i'r caffael ddod i ben<br>• Yn ddiweddar mae'r DG wedi cadarnhau'r oedi i raglen buddsoddi yn y rhanbarth yn cynrychioli risg posib i ddiddordeb cyflenwyr<br>• Cyflwynwyd cais am arian am weithgarwch cefnogi i'r rhaglen SPF rhanbarthol<br>• Risg o oedi o 1-4 mis i'r targed cymeradwyaeth FBC a'r dyddiad cychwyn ar y safle |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Amlinellol Strategol wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd prosiect<br>• Gwaith wedi cychwyn ar Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol wedi'i gyflwyno am gymeradwyaeth<br>• Gweithgarwch ymgysylltu â'r farchnad | | • Yr opsiwn a ffafrir wedi'i hadnabod yn y rhestr fer SOC<br>• Diddordeb y farchnad yn parhau i fod yn isel, yn amodol ar brofi yn Ch2<br>• Risg chwyddiant o ran fforddiadwyedd yn cael ei fonitro<br>• Ar y trywydd iawn am gymeradwyaeth OBC erbyn mis Tachwedd 2024 |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Achos Cyfiawnhad Busnes wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd ar gyfer y ffrwd gwaith LPWAN<br>• Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y ffrwd gwaith Di-wifr Uwch yn agos i gael ei gwblhau | • Achos Busnes Amlinellol wedi'i gyflwyno<br>• Gweithgarwch ymgysylltu â'r farchnad | | • Mae gan un ffrwd gwaith yn y prosiect achos cyfiawnhad busnes wedi'i gwblhau.<br>• Mae'r ffrwd gwaith sy'n weddill i fod i gynhyrchu SOC yn gynnar yn Ch2 ac mae ar y trywydd iawn ar gyfer cymeradwyaeth OBC erbyn mis Mawrth 2024<br>• Diddordeb y farchnad yn parhau i fod yn isel, yn amodol ar brofi yn Ch2<br>• Risg chwyddiant o ran fforddiadwyedd yn cael ei fonitro<br>• Cyflwynwyd cais am arian am weithgarwch cefnogi i'r rhaglen SPF rhanbarthol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Ynni Lleol Blaengar:** Lansiwyd y cam caffael ymgynghorydd cronfa ym mis Mehefin cyn datblygu'r Achos Busnes Llawn yn yr Hydref.<br>• **Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth:** Lansiwyd yr Her Ariannwr Hydrogen ym mis Mehefin gyda'r nod o benodi ariannwr erbyn diwedd 2023. Unwaith y bydd wedi'i benodi, bydd yr ariannwr yn arwain ar ddatblygu a chyflawni hwb hydrogen yn y rhanbarth.<br>• **Egni:** Mae'r OBC a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rhaglen ym mis Chwefror 2023 wedi'i ddiweddaru gan Brifysgol Bangor gyda newidiadau i'r sgôp, y gost a'r amserlen. O ystyried yr oedi arfaethedig, cefnogodd y Bwrdd Portffolio argymhelliad y PMO o ystyried bod cymeradwyaeth yr OBC wedi'i oedi hyd Ch3 23/24.<br>• **Cydnerth (Morlais)**: Mae OBC Cydnerth yn bwrw ymlaen yn dda gyda'r prosiect ar y trywydd am gymeradwyaeth OBC yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 27 Hydref.<br>• **Trawsfynydd:** Mae Cwmni Egino wedi cyhoeddi pamffled Cwmni a'i ddosbarthu i ran-ddeiliaid. Mae eu Cynnig Busnes hefyd wedi'i gwblhau'n derfynol a'i ddosbarthu i Lywodraethau, yn nodi prif ofynion Llywodraeth y DG ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen. |



Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau ar gyllideb ac ar amserlen.<br>• Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol a thrafodaethau gyda darpar fuddsoddwyr<br>• Datblygwyr llanwol wedi cyflwyno cynigion am Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth Arwerthiant Rownd 4 | • Sicrhau buddsoddwr i ariannu costau ychwanegol y prosiect Cydnerth<br>• Cyflwyno ac adolygu'r Achos Busnes Amlinellol<br>• Adolygiad Gateway 2 | | • Sgôr wedi'i ddiwygio o wyrdd i ambr oherwydd costau cynyddol y prosiect ac oedi i dargedu cymeradwyaeth Achos Busnes Amlinellol o fis Gorffennaf i fis Hydref ac oedi 3-6 mis i'r dyddiad cychwyn ar y safle. |
| **Hwb Hydrogen**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cynnal digwyddiad briffio cyn lansio ar gyfer Her Ariannwr Hydrogen ac ymgynghori â'r diwydiant a'r llywodraeth ar y gystadleuaeth arfaethedig<br>• Lansio'r Her Ariannu Hydrogen | • Cyflawni'r broses gystadleuol Her Ariannwr Hydrogen | | • Mae sgôr ambr yn adlewyrchu'r risg bod yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect ar ôl yr Her Ariannwr Hydrogen yn aneglur ar y cam hwn |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae trefniadau llywodraethu newydd yn eu lle ar gyfer y prosiect<br>• Mae'r achos busnes amlinellol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rhaglen ym mis Chwefror 2023 wedi'i ddiweddaru gan Brifysgol Bangor gyda newidiadau i'r sgôp, y gost a'r amserlen. O ystyried yr oedi arfaethedig, cefnogodd y Bwrdd Portffolio argymhelliad y PMO bod cymeradwyaeth yr OBC yn cael ei oedi hyd Ch3 23/24. | • Caffael tîm proffesiynol i ddatblygu'r prosiect<br>• Cynnydd drwy'r camau RIBA cyn caffael prif gontractwr yn ystod Ch4 23/24.<br>• Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol wedi'i amserlenni ar gyfer Ch3 23/24 | | • Statws ambr yn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect wedi'i wella a'r oedi 13-16 i ddechrau ar y safle. Statws Ambr yn sgil yr oedi o hyd at 13 mis i amserlen cyflwyno'r prosiect |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r broses sicrwydd<br>• Ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar gyda chynghorwyr cronfa posib<br>• Mae 31 Ten wedi'u caffael i gefnogi datblygiad yr FBC a darparu mewnbwn i werthusiad tendrau ymgynghorwyr y gronfa<br>• Gyda chefnogaeth gan yr ymgynghorwyr 31Ten, mae'r PMO wedi darparu sgôp gwaith drafft ar gyfer caffael ymgynghorydd cronfa a lansio'r broses caffael | • Gorffen caffael ymgynghorydd cronfa<br>• Datblygu Strategaeth y Gronfa<br>• Paratoi'r Achos Busnes Llawn i'w chymeradwyo yn ystod Ch3 23/24 | | • Ar amser ar gyfer cymeradwyo'r FBC erbyn mis Rhagfyr 2023 a dim materion arwyddocaol i'w hadrodd. Mae sgôr ambr yn adlewyrchu'r ffaith bod y prosiect wedi derbyn sgôr Adolygiad Gateway ambr. |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cynnig Busnes wedi'i gwblhau'n derfynol a'i ddosbarthu i'r llywodraeth a rhan-ddeiliaid allweddol. Bellach, mae'r amcan gost o gyrraedd y penderfyniad buddsoddi terfynol yn £250m sydd wedi cael ei adolygu i lawr o'r amcanion cynharaf<br>• Mae taflen y cwmni wedi'i chynhyrchu ac wedi'i dosbarthu i ran-ddeiliaid<br>• Mae'r llythyr cylch gwaith a'r llythyr ariannu yn dal gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru er ystyriaeth | • Parhau i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol drafft.<br>• Llywodraeth y DG a Great British Nuclear yn datblygu'r safle a dewis technoleg ar gyfer prosiectau niwclear newydd<br>• Bwrw ymlaen â'r broses gwneud cais am newid ar gyfer y lleihad arfaethedig mewn costau o ddatblygu'r prosiect hyd y penderfyniad buddsoddi terfynol. | | • Gradd Ambr yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch amserlen cyflawni prosiectau a'r posibilrwydd o oedi pellach. |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • **Warren Hall, Brychdyn - Cyfarfu Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Uchelgais Gogledd Cymru ym mis Mehefin a chytunwyd bod y pedwar prawf oedd wedi'u cynnwys yn ymateb y Llywodraeth i argymhellion y Panel Adolygu Ffyrdd** wedi cael eu cwrdd a bod modd bwrw ymlaen i ddatblygu'r prosiect. Mae Llywodraeth Cymru yn penodi ymgynghorydd i adolygu effaith yr Achos Diogelwch Maes Awyr ar y safle.<br>• **Porth y Gorllewin, Wrecsam** - mae argymhellion Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r safle yn cael eu hystyried gan y Cyngor a'r gallu i gyflawni'r prosiect yn cael ei asesu yn sgil y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r gwaith uwchraddio cyffyrdd ar yr A483...<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** - mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u hymgynghorwyr Avison Young bellach yn y broses o symud y prosiect i gyflawni yn dilyn y penderfyniad i ddarparu cyllid ychwanegol o'r Cynllun Twf gyda deialog ar gostau, cydsyniad a'r achos busnes diwygiedig.<br>• **Porth Caergybi** - cynhaliwyd asesiad Adolygiad Gateway 2 ar brosiect ymestyn Porthladd Caergybi ym mis Mehefin ac fe'i haseswyd yn ambr ** gydag un blociwr a nifer o argymhellion critigol a hanfodol. Mae'r adroddiad Adolygu wedi cael ei derbyn gan Stena ac mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi uchafu'r blociwr Gorchymyn Adolygu Harbwr i Weinidogion Llywodraeth Cymru fel risg 'du' gyda goblygiadau difrifol ar gyfer y prosiect. Mae'r adroddiad Adolygu wedi cael ei dderbyn gan Stena ac mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi uchafu'r blociwr Gorchymyn Adolygu Harbwr i Weinidogion Llywodraeth Cymru fel risg 'du' gyda goblygiadau difrifol ar gyfer y prosiect.<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor** - Mae briff y tendr ar gyfer penodi'r tîm proffesiynol o ymgynghorwyr wedi cael ei ddychwelyd ac mae'r ymatebion wrthi'n cael eu hadolygu. |



Y Cynghorydd Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |
|---|---|---|---|---|---|

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Cyngor am adolygu'r prosiect i asesu ei gyflwyniad o ystyried yr argymhellion gan bedwar prawf yr Adolygiad Ffyrdd a Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd.<br>• Mae Dŵr Cymru yn bwrw ymlaen â'u hadolygiad o redlif ffosffad o'u gweithfeydd trin. | • Dull y cytunwyd arno gyda'r Cyngor ac Uchelgais Gogledd Cymru o ran cyflawni'r prosiect gan ystyried prif gynllunio ac amserlenni cyflawni yn sgil y penderfyniad adolygiad ffyrdd.<br>• Dŵr Cymru i gadarnhau'r lefelau rhedlif trwyddedig mewn Gweithfeydd Trin ar gyfer Ffosffadau, a pha weithfeydd sydd angen buddsoddiad ac sydd â digon o gapasiti ar gyfer lefelau rhedlif presennol. | Coch | • Mae sgôr risg y prosiect wedi newid i goch, tra mae'r adolygiad o allu'r prosiectau i gwrdd â phrofion y Llywodraeth am fuddsoddiad priffyrdd yn cael ei gynnal. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cytunodd Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Uchelgais Gogledd Cymru bod y prosiect yn medru bwrw ymlaen yn unol â phedwar prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith priffyrdd newydd.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn penodi ymgynghorydd i asesu a lliniaru effaith yr achos diogelwch maes awyr ar safle'r prosiect. | • Ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu eu hadroddiad drafft ar yr effaith a mesurau lliniaru'r achos diogelwch maes awyr ar safle'r prosiect. | Ambr | • Sgôr risg y prosiect yn parhau yn ambr gan bod cwrdd yr achos diogelwch maes awyr yn dal angen cael ei asesu'n llawn. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Materion sydd bellach yn cael eu trafod/ symud ymlaen yw cynllunio (amodau a chydsynio), datblygu achosion busnes, costau diwygiedig a chyflwyno'r gwaith yn raddol.<br>• Proses wedi'i chytuno ar gyfer caffael cam 1 y gwaith | • Cwblhau diwygio'r achos busnes amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Graddol a'r llwybr caffael.<br>• Cael cyngor cymorth cymhorthdal gan ymgynghorwyr allanol.<br>• Ni fydd y gwaith o adeiladu'r tŷ ystlumod yn cychwyn hyd nes i'r Achos Busnes Llawn gael ei gymeradwyo | Ambr | • Sgôr risg y prosiect wedi newid yn ambr yn sgil newid yn y proffil gwario sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu tŷ ystlumod bellach ddim yn cychwyn hyd nes i'r achos busnes llawn gael ei gymeradwyo. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo



| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor** Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae briff tendr Llywodraeth Cymru i benodi'r tîm proffesiynol wedi cau ac mae'r tendrau'n cael eu sgorio. | • Llywodraeth Cymru i benodi tîm ymgynghoriaeth i ddylunio a datblygu'r prosiect. | | • Newid yn y proffil gwario gan bod y broses caffael yn cymryd mwy o amser na'r hyn a sgopiwyd yn wreiddiol. Ddim yn berthnasol o ran cyflawni'r prosiect a'r risg o gynnydd mewn costau yn sgil yr oedi yn cael ei liniaru. Y prosiect yn cadw ei sgôr risg gwyrdd. |
| **Porth Caergybi** Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygiad Gateway 2 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol wedi adrodd asesiad hyder ambr ond gyda 10 argymhelliad critigol. Mae'r rhain yn cael sylw gan Stena ac Uchelgais Gogledd Cymru.<br>• Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at Weinidogion Cymru yn mynegi eu pryder ynghylch yr oedi o ran cymeradwyo'r Gorchymyn Adolygu Harbwr. | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladdoedd.<br>• Disgwylir y penderfyniad ar y Gorchymyn Adolygu Harbwr y chwarter hwn<br>• Cyngor cymorth cymhorthdal gan Pinsent Masons | | • Y sgôr risg yn aros yn ambr ond roedd adroddiad adolygu Gateway 2 yn nodi materion critigol a hanfodol sydd angen sylw gan Stena / Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru. |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Rhwydwaith Talent Twristiaeth -** mae Grŵp Llandrillo Menai yn cwblhau eu Hachos Busnes Amlinellol (OBC) drafft gan ymgorffori adborth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) ac Adolygiadau Gateway. Mae gweithio drwy fanylion caffael penodol cymhleth wedi arwain at beth oedi (1-2 mis) gyda'r prosiect bellach yn gweithio tuag at ystyried yr Achos Busnes Amlinellol terfynol gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Medi 2023.<br>• **Hwb Economi Gwledig Glynllifon -** Mae ffocws y prosiect wedi bod ar reoli'r arolygon ychwanegol ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW, gan weithio tuag at gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn yn gynnar yn 2024. Mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Ymchwil Uwch Gynhyrchu (AMRC) yn cadarnhau cytundeb i AMRC gael lle yn yr Hwb i gefnogi busnesau SME rhanbarthol gydag awtomeiddio, effeithiolrwydd a chynhyrchedd. . |



Cyng Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
